

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Medi 2018.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Gorffennaf. Arwyddwyd y Cofnodion gan y Cadeirydd.

Llongyfarchwyd Alwena Mair Owen (merch y Clerc) ar ennill y wobwr gyntaf ar yr Unawd dan 12 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd yn Mis Awst.

AGENDA:

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

PLISMONA

Nid oedd dim i'w gofnodi ers cyfarfod diwethaf.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Yr oedd angen hau hadau mewn un man; gobeithio hau cyn y cyfarfod nesaf. Byddai'r Clerc yn cysylltu am y diweddaraf ynglŷn ag archwilio'r adnoddau.

TRO BEECHES

Roedd y gwaith wedi ei gwblhau.

GWEFAN LLANLLWNI

Byddai adroddiad o gyfarfod mis Medi yn cael ei roi y wefan; a byddai'n ymddangos yn y rhifyn cyfleus nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

Y FANTOLEN

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

CFFI LLANLLWNI – YSGOL GYNRADD LLANLLWNI

Byddai cyngerdd yn cael ei chynnal ar 23 Medi 2018 yn Eglwys Llanllwni ac aelodau'r CFFI a phlant yr Ysgol yn cymeryd rhan; roedd y plant, yn ogystal, wedi bod yn canu yng nghyngerdd cynhadledd Merched y Wawr yn Llambod ddechrau Medi. Codwyd tua £1,000 i'r NSPCC.

CAIS AM GRANT LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU 2018 – 2019.

Roedd y Clerc wedi derbyn ebost yn cadarnhau nad oedd y cais wedi bod yn llwyddianus y tro hwn.

LLWYBRAU CYHOEDDUS

Roedd y Clerc wedi derbyn mapiau o leoliad y llwybrau cyhoeddus o fewn y pentref.

LLYWODRAETH CYMRU

Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â newid ffiniau.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA
Derbyniwyd gwybodaeth am y newidiadau posibl.

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU
Derbyniwyd ymateb i astudiaeth o effeithiolrwydd archwilio mewnol mewn
cynghorau tref a chymunedol.

CYFLWR Y Tŷ HERS
Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr ynglŷn â chyflwr yr adeilad. Penderfynwyd yn
unfrydol gan y Cynghorwyr y byddai'r Clerc yn danfon llythyr gyda'r canlynol yn
gynwysedig yn y llythyr "Bydd y Cynghorwyr yn archwilio'r adeilad yn ystod y
dyddiau nesaf ac y byddai'n ddoeth i'r aelodau beidio â mynychu na defnyddio'r
adeilad yn y cyfamser".

Penderfynwyd cefnogi Ysgol Sul Eglwys Llanllwni, CFFI Sir Gár, CFFI Llanllwni.

AWEL Y MYNYDD
Roedd y blwch postio wedi diflannu o'r lleoliad yma; penderfynwyd bod y Clerc yn
cysylltu â'r Swyddfa Bost i holi a oeddent yn bwriadu gosod blwch arall yno.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb
a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol
Llanllwni ar 12 Tachwedd 2018 am 8.00yh.